



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Strategaeth Tai Cymru

2025 - 2030



Cynnwys

Rhagair	4
1. Yr hawl i dai digonol	5
2. Mwy o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy	7
3. Gwella ein cartrefi presennol a mynd i'r afael â thlodi tanwydd	19
4. Mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol a hybu effaith gadarnhaol cymunedau amrywiol	23
5. Gweithlu proffesiynol a gwydn	25

Rhagair

Daw etholiad y Senedd yn 2026 yn erbyn cefndir argyfwng tai sy'n gwaethygu yng Nghymru. Canlyniad gweladwy hyn yw'r lefelau cynyddol o ddigartrefedd yng Nghymru gydag un o bob cant o aelwydydd yn colli eu cartrefi yn 2023/24. Mae hefyd 6,495 o aelwydydd yn byw mewn llety dros dro gan gynnwys 1,698 o aelwydydd â phlant. Mae nifer y bobl sy'n cysgu allan yn parhau i fod yn ystyfnig o uchel iawn gyda 131 o unigolion yn cysgu ar y strydoedd ym mis Mai 2025. Gellir priodoli'r lefelau cynyddol o ddigartrefedd i ddiffyg enbyd o lety fforddiadwy yng Nghymru.

Mae'r sector tai wedi ymrwymo i ddatblygu'r cartrefi sydd eu hangen arnom er mwyn dod â'r argyfwng tai i ben. Ac eto, mae costau benthyca cynyddol ac effaith barhaus chwyddiant yn effeithio ar gyflymder a graddfa datblygu. Mae'r anawsterau ariannol hyn hefyd yn effeithio ar allu sefydliadau tai i sicrhau bod ein cartrefi presennol yn cael eu hôl-osod i gyrraedd SATC fel rhan o'n taith ar y cyd i sero net. Mae sefydliadau tai wedi ymrwymo i'r uchelgeisiau ar y cyd o gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac ôl-osod ein cartrefi presennol ond mae angen y lefel gywir o gyllid arnynt er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn.

Rydym wedi siarad â'n haelodau, ac maen nhw'n glir ynglŷn â rhai o'r syniadau ymarferol a all, os cânt eu mabwysiadu, fod yn drawsnewidiol i'r sector tai a helpu i gyflawni Cymru sy'n fwy cyfartal, rhywbeth rydym yn ei rannu yn ein maniffesto. Mae ein haelodau hefyd yn glir mai nawr yw'r amser i wneud tai'n flaenoriaeth. Fel y dywedodd un cyfranogwr yn ein harolwg cipolwg ar y sector yn 2024:

"Nid yw tai yn ôl-ystyriaeth. Dylai hyn fod yn un o'r blaenoriaethau pennaf yng Nghymru ac yn y DU. Gyda'r tai cywir ar gael, efallai y bydd yr angen am wasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn lleihau. Mae'n bryd rhoi'r flaenoriaeth bennaf i dai."

Dylai tai fod yn genhadaeth sylfaenol i'r llywodraeth, a rhaid i'r man cychwyn fod yn ddeddfwriaeth ar gyfer yr hawl i dai digonol yng Nghymru. Dangosodd y chweched Senedd gefnogaeth drawsbleidiol i'r hawl hon, a fydd yn sbarduno'r newid patrwm sydd ei angen arnom er mwyn creu Cymru lle gall pawb gael mynediad at gartref diogel, addas a fforddiadwy. Yr hawl i dai digonol fydd yn helpu i roi terfyn ar dlodi ac yn helpu creu Cymru deg ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

1. Yr hawl i dai digonol

Mae angen cychwyn o'r newydd gyda'r system dai yng Nghymru. Ers 2006 ar gyfartaledd, [2.3 y cant o gyfanswm gwariant y llywodraeth](#) yng Nghymru sydd wedi'i wario ar dai. Nid yw hyn yn adlewyrchu'r argyfwng tai sy'n dwysáu yr ydym yn ei wynebu nawr a'r lefel o fuddsoddiad y byddai ei angen er mwyn mynd i'r afael ag ef yn effeithiol. Credwn mai man cychwyn sicrhau bod tai'n genhadaeth sylfaenol i'r llywodraeth, ynghyd â'r lefel o fuddsoddiad sydd ei angen i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni, yw deddfu i ymgorffori'r hawl i dai digonol yng nghyfraith Cymru.

Mae pobl Cymru'n cefnogi'r hawl, gyda dros [dri chwarter o'r boblogaeth yn dangos cefnogaeth i'r hawl](#). Mae ein sector tai hefyd yn cefnogi'r hawl. Mae mwy na dau draean o brif weithredwyr cymdeithasau tai bellach wedi [llofnodi'r ymrwymiad #CefnogirBil](#) i ddeddfu dros yr hawl i dai digonol yng Nghymru. Mae'r hawl hefyd wedi ennyn cefnogaeth yn y Senedd, gyda chynrychiolwyr o nifer o bleidiau gwleidyddol yn siarad yn gadarnhaol yn y ddadl lawn ar yr hawl i dai digonol a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2025.

Mae'r hawl i dai digonol yn golygu bod gan bawb yr hawl i fyw rhywle gyda diogelwch, heddwch ac urddas. Mae'r hawl yn rhan o'r hawl ddynol ehangach i safon byw ddigonol trwy Gyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol. Mae'r hawl yn nodi saith ffactor sy'n ffurfio digonolrwydd tai:


- Sicrwydd daliadaeth cyfreithiol
- Fforddadwyedd
- Addasrwydd i fyw ynddo
- Argaeledd gwasanaethau, deunyddiau, cyfleusterau a seilwaith
- Hygyrchedd
- Lleoliad
- Digonolrwydd diwylliannol.

cynnydd o 189 y cant ers 2020 Cred CIH Cymru mai ymgorffori'r hawl i dai digonol yw'r man cychwyn ar y daith i sicrhau y gellir

bodloni'r saith ffactor digonolrwydd tai. Yna caiff hyn ei ddilyn gan wireddu'n raddol yr hawl i dai digonol dros amser.

Mae'r hawl i dai digonol yn ymwneud â newid system gyfan i'n hymagwedd at dai yng Nghymru, gan ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer darparu Cymru deg i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. [Amlinellodd papur gwyn amgen yr ymgyrch #CefnogirBil](#) yr hawl i dai digonol yng Nghymru a sut y byddai hyn yn edrych. Yn gryno, byddai'r hawl yn:

- **Helpu rhoi hwb i'r cyflenwad tai:** Bydd yr hawl yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar y llywodraeth ar draws cylchoedd gwleidyddol i adeiladu mwy o gartrefi a gwneud popeth o fewn ei phŵer i roi hwb i'r cyflenwad o'r cartrefi cywir yn y lleoedd cywir.
- **Darparu arbediad costau-buddion:** Bydd yr hawl yn gwireddu [buddion gwerth £11.5 biliwn](#) ar draws y pwrs cyhoeddus a chymdeithas, yn erbyn costau amcangyfrifedig o £5 biliwn dros gyfnod o 30 mlynedd.
- **Helpu mynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng hinsawdd:** Bydd yr hawl yn galluogi adeiladu ac ôl-osod cartrefi i sicrhau bod ein cartrefi'n gydnerth yn erbyn yr hinsawdd ac yn lleihau allyriadau carbon o'r amgylchedd adeiladu.
- **Helpu rhoi terfyn ar ddigartrefedd:** Dylai profiadau o ddigartrefedd fod yn brin, yn fyrhoedlog a heb ddigwydd eto. Mae'r hawl yn darparu cyfleoedd i wneud hyn wrth gefnogi ymrwymadau presennol ynghylch tai yn gyntaf ac ailgartrefu cyflym.
- **Helpu hyrwyddo Cymru deg:** Bydd gwireddu'r hawl yn raddol yn sicrhau y gall pawb, waeth beth fo'u nodwedd warchodedig, gyrchu cartref diogel, addas a fforddiadwy yn y lle iawn, gyda'r gefnogaeth iawn ar yr amser iawn wrth i ni weithio tuag at Gymru fwy teg ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.



Credwn mai deddfwriaeth i ymgorffori'r hawl yng nghyfraith Cymru ddylai fod y man cychwyn ar gyfer unrhyw ymagwedd strategol at fynd i'r afael â'r argyfwng tai sy'n cwmpasu'r system dai gyfan yng Nghymru. Ym 1947, ystyriwyd mai deddfwriaeth oedd y grym a fu'n sbardun i sefydlu'r GIG. Ni wnaethom aros i bopeth fynd i'w le nac i gyllid fod yn ei le. Mae angen yr un ymagwedd arnom ar gyfer yr hawl i dai digonol. Rhaid i ni fod yn uchelgeisiol a chyflwyno'r deddfwriaeth sydd ei hangen, gan ei defnyddio fel y sbardun a'r mecanwaith i sicrhau y gall pawb yng Nghymru gael mynediad at gartref diogel, addas a fforddiadwy.

2. Mwy o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy

Newidiadau strwythurol i dai yng Nghymru


Mae Cymru yng nghanol argyfwng tai y mae'r dystiolaeth ohono'n cynnwys digartrefedd cynyddol, defnydd cynyddol o lety dros dro, prinder tai cymdeithasol lefelau cynyddol o anfforddwyedd rhentu preifat a pherchen ar dai. Yn 2023/24 roedd [13,539 o aelwydydd wedi'u troi allan](#), sy'n cyfateb i un o bob 100 o aelwydydd yng Nghymru. Dyma'r lefel uchaf ers i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ddod i rym yn 2015. Ym mis Medi 2024 roedd [6,495 o unigolion mewn llety dros dro](#) gan gynnwys 1,698 o aelwydydd gyda phlant dibynnol. Mae'r data rhestri aros diweddaraf yn dangos yr oedd 94,000 o aelwydydd [yn Haf 2024](#), gan gynrychioli tua 170,000 o bobl sy'n aros am gartref cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys 34,000

o blant. Ar hyn o bryd mae un o bob 14 aelwyd yng Nghymru yn aros am gartref cymdeithasol.

Ar gyfraddau cyflenwi presennol, byddai'n cymryd mwy na 35 mlynedd i ddarparu'r cartref sydd ei angen ar bob aelwyd, gan gynnwys o leiaf 34,000 o blant. Mae'r lefelau cynyddol hyn o ddigartrefedd a'r niferoedd uchel o unigolion sy'n aros am gartref cymdeithasol yn arwydd gweladwy o system dai mewn argyfwng.

Mae cost rhentu cartref yn breifat wedi cynyddu'n sylweddol ers diwedd y pandemig Covid-19. [Mae rhenti yng Nghymru wedi codi 8.2 y cant rhwng Gorffennaf 2024 a Gorffennaf 2025. Mae hyn yn uwch na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Gorffennaf 2026, sef 3.6 y cant.](#) Dangosir hyn yn ffigur 1.

Ffigur 1: Chwyddiant rhent o'i gymharu â CPI ac enillion




¹ Mynegai Prisiau Rhentu Tai Preifat, Prydain Fawr: Hydref i Ragfyr 2015. <https://cy.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/indexofprivatehousingrentalprices/octobertodecember2015>
<https://www.ons.gov.uk/ons/rel/hpi/index-of-private-housing-rental-prices/july-to-september-2015-results/rft-table-1.xls>
EARN01: Enillion wythnosol cyfartalog. <https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/datasets/averageweeklyearningsearn01>
Chwyddiant prisiau defnyddwyr, Deyrnas Unedig: Mehefin 2025. <https://cy.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/june2025>

Mae mynediad i'r farchnad rhentu preifat yn arbennig o anodd i unigolion sydd ar incwm isel ac yn dibynnu ar lwfans tai lleol (LHA) i dalu eu costau rhent. Mae'r LHA unwaith eto wedi'i rewi, gan effeithio ar allu aelwyd sy'n ddibynnol ar LHA i sicrhau eiddo rhent preifat y gallant ei fforddio. Dangosodd ymchwil, yn [Chwefror 2023](#), mai dim ond 32 eiddo yng Nghymru oedd wedi'u cyflenwi'n llawn gan LHA. O'r rhain, 12 yn unig oedd yn eiddo o

faint sy'n addas i deulu, gan roi teuluoedd dan anfantais o ran eu gallu i sicrhau eiddo rhent preifat fforddiadwy. [Dengys ymchwil bellach yn seiliedig ar gyfraddau LHA 2024 gan Crisis, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025](#), fod yna ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru bellach lle nad oes unrhyw eiddo y gellir ei ystyried yn fforddiadwy i aelwyd sy'n derbyn LHA. Fel y dangosir yn Ffigur 2:

Ffigur 2: Hysbysebion llety 1-3 ystafell wely fforddiadwy ledled Prydain Fawr yn seiliedig ar y gyfradd LHA



Mae rhenti uchel yn y sector rhent preifat, ynghyd â chyfraddau llog uchel, hefyd yn effeithio ar gyflenwad tai rhent preifat a'r tebygolrwydd y bydd prynwyr tro cyntaf yn gallu cyrchu'r farchnad perchnogaeth tai. Mae'r pedwerydd adroddiad arolwg tenantiaid blynyddol a gyhoeddwyd gan [TPAS Cymru ym mis Rhagfyr 2024](#) yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i hyn. Canfu'r arolwg fod 23 y cant o rentwyr preifat yn aros mewn tai rhent preifat nes y gallant fforddio prynu. Amlinellodd yr ymatebwyr fod fforddadwyedd yn bryder, bod rhenti'n rhy uchel i'w galluogi i gynilo am flaendal ynghyd â ffactorau cost byw eraill sy'n effeithio ar eu gallu i gynilo. Mae'r dyfyniad canlynol o [Arolwg 2023](#) yn crynhoi'r problemau:


"Rydyn ni wedi bod yn cynilo i brynu ers nifer o flynyddoedd ond mae'n teimlo fel bod y pyst gôl bob amser yn symud ac mae'n dod yn anoddach i bobl yn eu 20au a'u 30au cynnar gamu ar yr ysgol eiddo. Mae'r cynnydd mawr mewn cyfraddau llog wedi gwneud i ni ohirio ein cynlluniau i brynu. Bu'n rhaid i ni newid ein cynlluniau'n sylweddol ac mae'n ddinistriol i'n henaid oherwydd ein bod wedi treulio 13 mlynedd yn rhentu ac yn awchu am gael ein cartref ein hunain."

Am fod pobl sy'n rhentu nes y gallant fforddio prynu aros yn eu heiddo rhent preifat am hirach, mae'n lleihau'r cyflenwad ymhellach a allai gynyddu rhenti ymhellach. Yr hyn sydd ei angen yn y bôn yw ailosod y farchnad dai yng Nghymru. Un dull arfaethedig a amlinellwyd gan bwyllgor llywodraeth leol a thai'r Senedd yw sicrhau bod tai cymdeithasol yng Nghymru'n cyfrif am o leiaf 20 y cant o'r stoc tai fel ffordd o ailgydbwyso daliadaethau tai ledled Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o opsiynau tai i aelwydydd a bydd yn helpu cydbwyso prisiau o fewn y farchnad breifat.

Amlinellodd adroddiad y Comisiwn Tai a gyhoeddwyd gan lywodraeth Iwerddon sut mae màs critigol o dai cymdeithasol yn rhan allweddol o system dai sy'n gweithredu'n dda. Dylai'r màs critigol hwn fod o leiaf 20 y cant. Fel y dangosir yn Ffigur 3, mae'r màs critigol hwn yn gysylltiedig â ffactorau allweddol eraill i ffurfio system dai sy'n gweithredu'n dda.

²<https://www.crisis.org.uk/media/mowld0pp/crisis-he-policy-report-now-i-have-my-flat-my-health-is-much-more-stable-april-2025.pdf>

Ffigur 3: Gweledigaeth o system dai sy'n gweithredu'n dda



³Adroddiad Y Comisiwn Tai. <https://assets.gov.ie/294018/e1aae1ed-07c4-473d-811e-3426756321ee.pdf>

Yr hyn sy'n amlwg yw bod angen i ni gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru. Eto i gyd, bydd hyn yn dibynnu ar fynd i'r afael â'r rhwystrau i gynyddu'r cyflenwad tai cymdeithasol. Mae angen i ni hefyd fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n bodoli eisoes i gynyddu'r cyflenwad cartrefi cymdeithasol yng Nghymru.

Ailgyfrifo'r angen am dai

Mae gan Lywodraeth Cymru darged o 20,000 o gartrefi carbon isel ar rent cymdeithasol erbyn 2026. Eto i gyd, mae pryderon wedi'u codi ynghylch a fydd y targed hwn yn darparu digon o gartrefi i helpu datrys argyfwng tai Cymru. Roedd y targed yn seiliedig ar amcangyfrifon 2019 o'r angen am dai, gan ddefnyddio rhagamcanion aelwydydd 2018. Dangosodd y cyfrifiadau hyn y dylid adeiladu rhwng [3,095 a 3,407 o dai fforddiadwy y flwyddyn](#) i ddiwallu'r angen presennol am dai. Felly, byddai'r targed o 20,000 yn rhagori ar yr angen a amcangyfrifwyd am dai. Er i ni ddeall yn llawn y pennwyd y targed presennol ar gyfer cartrefi cymdeithasol ar ddechrau tymor y Senedd hwn a'i fod yn adlewyrchu'r angen am dai bryd hynny, mae angen i ni ailgyfrifo lefel yr angen am dai yng Nghymru i adlewyrchu'n llawn y newidiadau strwythurol ehangach i'r system dai.

Amlinellodd [dadansoddiad costau-buddion o'r hawl i dai digonol](#) yr ymgyrch #CefnogirBil a gyflawnwyd gan Alma Economics y byddai angen adeiladu 20,000 o gartrefi ychwanegol ar ben y targed o 20,000 o gartrefi presennol er mwyn i ni gyflawni digonolrwydd tai i bawb yng Nghymru. Ers cyfrifiad economeg Alma a nododd fod angen 20,000 o gartrefi ychwanegol, ar ben targed llywodraeth Cymru o 20,000 er mwyn bodloni digonolrwydd tai, mae'r cyd-destun tai ehangach wedi newid. Mae lefelau digartrefedd ar eu lefel uchaf ers 2015 pan ddeddfwyd Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae tai ar y farchnad yn dod yn gynyddol anfforddiadwy a [bu cynnydd o 189 y cant yn y defnydd o lety dros dro ers 2020](#).

Mae angen i ni ailgyfrifo'r angen am dai, gan sicrhau bod pob math o angen nas diwallir wedi'i gynnwys er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu'r nifer cywir o gartrefi i roi terfyn ar ein hargyfwng tai.

At hynny, [amlinellodd Archwilio Cymru bryderon yn ei adroddiad ar dai fforddiadwy](#), sef bod cyfrifiadau o'r angen am dai nas diwallir wedi tanamcangyfrif y lefel wirioneddol o angen nas diwallir yng Nghymru. Cododd yr adroddiad bryderon hefyd nad oedd y diffiniad o 'angen nas diwallir' yn cynnwys yr aelwydydd hynny sy'n chwilio am lety amgen neu'r rhai sydd mewn llety anaddas.

Wrth amlinellu y dylai tai cymdeithasol gyfrif am 20 y cant o dai yng Nghymru, meintiolwyd hyn fel 60,000 o dai cymdeithasol ychwanegol i'w rhentu yng Nghymru gan bwyllgor llywodraeth leol a thai'r Senedd. Amlinellodd y pwyllgor hefyd y dylai tai cymdeithasol gyfrif am hyd at draean o gyfanswm y stoc tai yng Nghymru dros y tymor hwy. Er y dylai'r cynigion uchelgeisiol hyn ddiwallu'r angen am dai yng Nghymru, mae angen o hyd i ailgyfrifo'r amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y nod y bydd 20 y cant o gyfanswm ein stoc tai'n gartrefi cymdeithasol hefyd yn diwallu'r angen amcangyfrifedig am dai.

Dylai ailgyfrifiadau o'r angen am dai hefyd ystyried tystiolaeth ansoddol yn ogystal â thystiolaeth feintiol. Roedd ein hymchwil [Tyfu Tai ar yr angen am dai a'i ddymunoldeb](#) yn cynnwys argymhelliad y dylai cymunedau fod yn rhan o gyfrifo anghenion tai er mwyn sicrhau bod y cartrefi cywir yn cael eu hadeiladu yn y lle cywir. Rydym wedi clywed gan y sector fod prinder dybryd o gartrefi un ystafell wely a chartrefi pedair ystafell wely a mwy. Drwy gynnwys data ansoddol, gallwn sicrhau nad yn unig yr ydym yn datblygu'r nifer cywir o gartrefi ond eu bod o'r math cywir, y maint cywir ac yn y lleoliad cywir i'r aelwydydd hynny sydd ag angen tai nas diwallir ar hyn o bryd.

Cyllid

Mwy o fuddsoddiad ar gyfer datblygu cartrefi cymdeithasol

Dros dymor diwethaf y Senedd, darparodd llywodraeth Cymru fwy o fuddsoddiad nag erioed er mwyn cyrraedd y targed o gyflenwi 20,000 o gartrefi ar rent cymdeithasol erbyn 2026. Ac eto, [erbyn mis Mawrth 2024 dim ond 8,074 o gartrefi oedd wedi'u darparu](#), llai na hanner y targed o 20,000, gyda dwy flynedd ar ôl yn y rhaglen. [Mae Archwilio Cymru wedi amcangyfrif y gallai fod angen rhwng £580 miliwn a £740 miliwn](#) ychwanegol ar ben y rhagdybiaethau cyllidebol presennol i ddarparu'r holl gartrefi sydd ar hyn o bryd yn y broses o'u datblygu. Heb y buddsoddiad ychwanegol hwn, dim ond 15,860 i 16,670 o gartrefi y gellid eu darparu erbyn mis Mawrth 2026, sy'n llawer llai na'r targed ar adeg o ddigartrefedd cynyddol ac anfforddadwyedd cynyddol yn y sector preifat.

Mae cyllideb 2025/26 wedi gweld cynnydd o £81 miliwn mewn buddsoddi cyfalaf ar gyfer datblygu cartrefi cymdeithasol ar draws y grant tai cymdeithasol a'r rhaglen gyfalaf llety dros dro. Mae'r buddsoddi ychwanegol hwn yn cael ei groesawu gan y sector ond mae'n is na'r cyfanswm buddsoddiad tebygol sydd ei angen fel yr amlinellwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

[Mae'r uchafbwynt chwyddiant o 11.5 y cant](#) bellach wedi'i ymwreiddio yn yr economi, ac ynghyd â chyfraddau llog uchel mae hyn yn effeithio ar nifer y cartrefi y mae'r grantiau a ddarparwyd ar gyfer datblygu yn eu cyflenwi mewn gwirionedd. Mae costau adeiladu wedi cynyddu [33 y cant](#) ers y pandemig ac mae'r [gwasanaeth gwybodaeth costau adeiladu \(BICS\)](#) yn rhagweld y bydd costau adeiladu'n codi 15 y cant ymhellach dros y pum mlynedd nesaf. [Mae cyfraddau llog ar gyfer landlordiaid cymdeithasol wedi codi](#) o 3.75 y cant ym mis Ebrill 2022 i 5.5 y cant ym mis Mehefin 2023. Ar gyfer awdurdodau lleol, cododd y cyfraddau o 2.5 y cant i 3.87 y cant dros yr un cyfnod. Mae'r pwysau cost hyn ynghyd â safonau adeiladu newydd wedi achosi cynnydd o 75 y cant, rhwng 2020/21 a

2023/24 yn y grant sydd ei angen i ddatblygu eiddo anghenion cyffredinol newydd.

Dangosodd ein [cipolwg ar y sector 2025](#) yr oedd 83 y cant o ymatebwyr yn anhyderus neu'n ansicr y byddai'r targed o 20,000 o gartrefi yn cael ei gyrraedd. Y prif reswm dros hyn oedd lefelau annigonol o gyllid, gyda'r rheswm hwn yn cael ei nodi gan 30 y cant o'r ymatebwyr. Nodwyd oedi wrth gynllunio, y prinder sgiliau a'r amser y mae'n ei gymryd i ddatblygu hefyd fel rhesymau dros y lefel isel o hyder o ran cyflawni'r targed o 20,000 o gartrefi.

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, [dywedodd dadansoddiad costau-buddion yr ymgyrch #CefnogirBil](#) a gyflawnwyd gan Alma Economics y byddai angen 20,000 o gartrefi ychwanegol ar ben y targed o 20,000 o gartrefi presennol i gyflawni digonolrwydd tai i bawb yng Nghymru. Nododd y dadansoddiad costau-buddion hefyd mai £200,000 oedd cost gyfartalog adeiladu tŷ newydd yng Nghymru yn 2022. Gan addasu ar gyfer chwyddiant byddai'r gost hon yn £222,884. Gan dybio y bydd y targed o 20,000 o gartrefi'n cael ei gyrraedd, rydym wedi defnyddio'r gost gyfartalog hon i amcangyfrif mai'r cyfanswm ymyriad grant tai cymdeithasol (gan dybio cyfradd ymyriad grant o 58 y cant) sydd ei hangen i ddarparu'r 20,000 o gartrefi ychwanegol yw £2.56 biliwn. Mae hyn yn cyfateb i leiafswm o £646 miliwn y flwyddyn pe baem yn ymrwymo i'r lefel hon o ddatblygiad dros dymor nesaf y Senedd neu £256 miliwn y flwyddyn dros y deng mlynedd nesaf.

Cyfanswm lefel y grant tai cymdeithasol a ddarperir yn nhymor y Senedd hon yw £1.7 biliwn, cyfartaledd o £347 miliwn y flwyddyn, 40 y cant yn is na'r £646 miliwn yr ydym wedi'i gyfrifo y bydd ei angen i fodloni digonolrwydd tai yn nhymor nesaf y Senedd.

Ar ben hynny, mae Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd wedi datgan y bydd angen i ni ddatblygu 60,000 o gartrefi i ailgydbwyso daliadaeth tai a fforddadwyedd ein cartrefi yng Nghymru. Mae'n debygol y bydd ein lefel o fuddsoddiad i ddatblygu'r cartrefi sydd eu hangen arnom yn uwch o lawer.

Os ydym am ddatblygu'r tai fforddiadwy sydd eu hangen arnom, mae angen setliad grant ar gyfer ein darparwyr tai cymdeithasol sy'n eu galluogi i liniaru costau datblygu parhaus a chyfraddau llog uchel. Mae ein darparwyr tai cymdeithasol wedi'u hymrwymo i ddatblygu'r cartrefi sydd eu hangen arnom ond mae angen lefel briodol o fuddsoddiad arnynt i gyflawni hyn.

Hyblygrwydd mewn rhaglenni grant

Ochr yn ochr â buddsoddi cynyddol mewn cyflenwad, mae angen mwy o hyblygrwydd yn y rhaglenni grant a ddarperir i ariannu datblygu. Mae TACP yn ffynhonnell incwm grant i'w chroesawu sy'n galluogi cartrefi gwag i gael eu defnyddio eto. Ac eto mae'r cyllid hwn yn cael ei ddyrannu o flwyddyn i flwyddyn ac, felly, yn effeithio ar lefel y cynllunio hirdymor y gellir ei gyflawni ar gyfer defnyddio cronfeydd TACP. Dylai unrhyw grant a ddarperir ar gyfer datblygiadau hefyd gynnwys arwydd aml-flwyddyn o lefelau cyllido er mwyn galluogi cynllunio datblygiadau dros y tymor hir. Bydd hyn yn sicrhau y gall darparwyr tai cymdeithasol ddatblygu cyfres o brosiectau wedi'u costio wrth iddynt geisio cynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd gennym yng Nghymru.

Darparu setliad rhent tymor hir

[Mae'r setliad rhent cyfredol](#) wedi darparu ymchwydd CPI, ynghyd â chynnydd un y cant, mewn rhenti. Ac eto yn ystod y lefelau uchel o chwyddiant, capwyd y cynnydd rhent ar gynnydd islaw'r gyfradd chwyddiant er mwyn darparu rhywfaint o amddiffyniad i

denantiaid ar adeg o gostau byw cynyddol. Er hynny, mae'r cynnydd mewn prisiau islaw chwyddiant wedi effeithio ar lefelau incwm darparwyr tai cymdeithasol, gan orfodi toriad termau real ar gyllidebau i bob pwrpas. Bydd hyn wedi effeithio ar allu'r sector i fuddsoddi mewn datblygu cartrefi newydd ac yn y stoc bresennol.

Dylai unrhyw setliad rhent gynnwys mecanwaith cydgyfeirio hefyd i alluogi darparwyr i fuddsoddi mewn cartrefi newydd a phresennol yn hyderus, lle gellid adennill incwm a gollwyd drwy osod cap rhent dros nifer o flynyddoedd ar ôl i chwyddiant ddychwelyd i lefelau arferol.

Y farn bresennol am y sector tai yng Nghymru yw ein bod yn gweithredu polisi rhent sy'n CPI ynghyd ag un y cant am gyfnod o bum mlynedd, gan fod sectorau ariannol Cymru wedi'u cysylltu'n annatod â rhai Lloegr, lle mae'r polisi hwn eisoes ar waith. Ac eto mae angen i ni hefyd ddefnyddio'r pum mlynedd nesaf i ymgymryd â darn ehangach o waith i gysylltu'r setliad rhent â fforddadwyedd ar gyfer tenantiaid a landlordiaid.

Mae angen setliad rhent newydd sy'n cydbwyso fforddadwyedd a thryloywder i denantiaid ac yn cefnogi landlordiaid cymdeithasol i ddatblygu a chynnal cynlluniau busnes cynaliadwy. Byddai sicrwydd hirdymor ynghylch lefelau rhent yn galluogi darparwyr tai cymdeithasol i ddatblygu mwy o gartrefi ar rent cymdeithasol.

¹DS: Mae'r ffigurau uchod yn seiliedig ar adeiladu o'r newydd yn unig. Fodd bynnag, gallai'r arian grant fynd ymhellach pe baent hefyd yn cael eu defnyddio i adfer eiddo gwag i ddefnydd. Ar ben hynny, cyfradd gyfartalog yr ymyriad grant cyfredol yn ôl Archwilio Cymru yw 78 y cant. Byddai'r lefel hon o ymyriad grant yn golygu y bydd angen mwy o fuddsoddiad na'r hyn y mae ein cyfrifiadau'n ei awgrymu.

Diwygiadau tir a chynllunio

Cost tir sydd i'w ddatblygu

Mae cost tir wedi codi'n sylweddol, gyda rhai'n nodi [cynnydd pum gwaith ers 1995](#). Mae'r cynnydd hwn ym mhrisiau tir yn gwneud adeiladu cartrefi cymdeithasol yn ddrutach. Er y gallai'r cynnydd ym mhrisiau tir fod yn ganlyniad i ddiffyg argaeledd tir, mae economeg marchnad syml yn pennu po fwyaf y mae galw am gynnyrch, y mwyaf y mae'n ei gostio.


Nid yn unig y mae'r gost uwch o dir yn effeithio ar asesiadau hyfywedd ariannol landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gan effeithio ar y cymysgedd o gartrefi neu hyd yn oed a all datblygiad ddigwydd, mae hefyd yn effeithio ar drafodaethau adran 106 a gallu awdurdodau lleol i sicrhau bod datblygiadau preifat hefyd yn darparu tai fforddiadwy. Heb

dir am bris y gall landlordiaid ei fforddio, mae perygl y bydd datblygiadau tai cymdeithasol yn arafu neu'n methu â dechrau hyd yn oed.

Cynyddu capasiti awdurdodau cynllunio lleol

Mae'r sector tai wedi codi mater oedi wrth gael caniatâd cynllunio ac effaith oedi ar nifer y cartrefi y gellir eu datblygu dro ar ôl tro. [Dengys ymchwil gan Savills](#) fod caniatadau cynllunio ar eu lefel isel yn hanesyddol, fel y gwelir yn ffigur 4. Mae nifer y gwerthiannau tai a gwblhawyd ar eu lefel isaf ers mis Mawrth 2015. Gyda gostyngiad o 10 y cant yn nifer y gwerthiannau a gwblhawyd rhwng Rhagfyr 2023 a 2025. Mae nifer y dechreuadau bellach yn is na lefel y gwerthiannau a gwblheir. Mae hyn yn golygu bod rhagolygon gwael ar gyfer darparu'r cartrefi sydd eu hangen arnom yng Nghymru yn y dyfodol.


Ffigur 4: Caniatadau o gymharu â dechrau adeiladu



⁴Diweddariad Marchnad a Chyflenwad Tai Cymru - Ebrill 2025. https://www.savills.co.uk/research_articles/229130/374601-0

Fel y dangosir yn ffigur 5, mae darpariaeth tai fforddiadwy wedi codi ychydig. Ac eto, gan y bu'r blynyddoedd blaenorol islaw'r targed, mae angen i'r gyfradd ddarparu gynyddu ymhellach i sicrhau y cyflawnir y targed o 20,000 o gartrefi erbyn mis Mawrth 2026.

Ffigur 5: Cyflenwi tai fforddiadwy



⁵Diweddariad marchnad a chyflenwad tai Cymru Ebrill 2025: https://www.savills.co.uk/research_articles/229130/374601-0

Mae'r rhesymau dros ddarpariaeth islaw'r targed ar gyfer tai fforddiadwy a ddangosir yn ffigur pump yn cynnwys diffyg cyllid, cost uwch benthyca, ynghyd â chyfyngiadau ar argaeledd tir i'w ddatblygu. Hefyd, mae diffyg capasiti mewn adrannau cynllunio ac rydym yn clywed gan aelodau fod hyn yn effeithio ar nifer y caniatadau sy'n cael eu rhoi. Mae'r lefel ostyngol hon o ganiatadau'n effeithio ar gyflymder a graddfa datblygu tai ar draws y farchnad dai yng Nghymru.

Yng Nghymru, mae gwariant net ar gynllunio wedi haneru mewn termau real rhwng 2008 a 2021. Dangosodd arolwg a gynhaliwyd gan [Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi \(RTPI\)](#) fod

25 y cant o gynllunwyr wedi gadael y sector rhwng 2013 a 2020. At hynny, roedd 82 y cant o ymatebwyr awdurdodau lleol wedi profi anhawster wrth recriwtio cynllunwyr yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Y prif reswm dros hyn oedd methu â chynnig cyflog cystadleuol, a graddedigion ifanc sy'n ffafrio gweithio i'r sector preifat lle cynigir cyflogau uwch. Mae llwythi gwaith hefyd wedi cynyddu, gyda 60 y cant o'r ymatebwyr yn nodi bod eu llwyth gwaith wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Priodolwyd y llwyth gwaith cynyddol hwn i ddiffyg staff yn yr adran.

Mae llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun bwrsariaethau cynllunio tref newydd drwy'r rhaglen llwybrau cynllunio er mwyn cynyddu'r nifer o gynllunwyr ar draws Cymru. Llywodraeth Cymru fydd yn talu costau graddedigion i gael cymhwyster cynllunio ôl-raddedig. Bydd cyfanswm o £9 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau cynllunio. Ni gyhoeddwyd faint fydd yn cael ei ddarparu ar gyfer y cynllun bwrsariaethau newydd. Er bod y buddsoddiad newydd hwn i'w groesawu, mae angen i ni sicrhau bod y bwrsariaethau'n cael eu hariannu i lefel a fydd yn galluogi adrannau cynllunio i dderbyn adnoddau priodol i gynyddu capasiti, gan arwain at gynydd mewn caniatadau i ddatblygu'r cartrefi sydd eu hangen arnom yng Nghymru. Mae'r rhesymau dros fethu â chyllraedd y targed ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn cynnwys y canlynol.

At hynny, mae ein gwaith ein hunain gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chwmpasu Academi Datblygu Cymru wedi nodi bwlch sgiliau arwyddocaol mewn timau datblygu awdurdodau lleol sy'n effeithio'n sylweddol ar gyflymder a graddfa datblygu cartrefi cymdeithasol.

Mae angen arian ychwanegol ar dimau cynllunio yng Nghymru i recriwtio mwy o gynllunwyr, gan gynyddu capasiti timau cynllunio presennol ynghyd ag arian i gynorthwyo hyfforddi cynllunwyr y dyfodol i adeiladu gwell gydnheredd mewn timau cynllunio awdurdodau lleol. Bydd hyn yn helpu i gynyddu nifer y caniatadau ar gyfer datblygiadau a dechrau ailadeiladu'r biblinell o brosiectau datblygu y mae eu hangen i gynllunio ar gyfer y cartrefi sydd eu hangen arnom i ddod â'r argyfwng tai i ben.

Corfforaeth/asiantaeth datblygu hyd braich

Yn 2019, argymhellodd yr [adolygiad annibynnol o'r cyflenwad tai fforddiadwy](#) y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu corff hyd braich i weithredu fel hyb rheoli tir sector cyhoeddus a gwasanaethau proffesiynol. Dylai'r corff hwn weithio ochr yn ochr â llywodraeth genedlaethol a lleol i ddarparu capasiti ac adnoddau i gyflymu datblygiad asedau tir cyhoeddus a chefnogi gwell gysondeb ac effeithlonrwydd wrth reoli'r asedau hynny.

Er gwaethaf yr argymhelliad hwn gan yr Adolygiad Tai Fforddiadwy, ychydig iawn o gynydd a wnaed o ran sefydlu'r corff hyd braich hwn, yn lle hynny creodd Llywodraeth Cymru'r Adran Tir o fewn Llywodraeth Cymru. Yr hyn sy'n glir yw bod angen mecanwaith/corff arnom yng Nghymru i ddod â'r holl gydrannau sydd eu hangen i ddarparu tai cymdeithasol a fforddiadwy newydd ynghyd ar lefel strategol, yn gyflym ac ar raddfa fawr. Bydd angen i hyn gynnwys rheoli argaeledd tir, galluogi'r defnydd o dir segur, gweithio i oresgyn cyfyngiadau yn y sector cynllunio, a darparu cadwyn gyflenwi effeithiol i Gymru.

Drwy sicrhau un corff/mechanwaith i weithio i oresgyn y rhwystrau cyffredin i ddatblygu, gan weithio mewn partneriaeth â datblygwyr yn y sectorau cymdeithasol a phreifat, gall weithredu fel y catalydd sydd ei angen arnom i gynyddu cyflymder a graddfa datblygu'r cartrefi ychwanegol y mae dirfawr angen amdanynt yng Nghymru.


Mynd i'r afael â ffactorau eraill sy'n taseilio'r cyflenwad

Pwysau cyflenwad o ail gartrefi

Mae cymunedau Cymraeg eu hiaith yng Nghymru'n wynebu problemau penodol mewn perthynas â thai o ran fforddwydd ac ail gartrefi. Awgryma data o Gyfrifiad 2021 fod y defnydd o ail gartrefi ar draws Cymru yn 5.2 y cant. Ceredigion sydd â'r gyfran

uchaf o ail gartrefi, ar 10.2% ac mae 45.3% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg ar 64.4% ac mae ail gartrefi'n cyfrif am 7.5% o gartrefi yn y sir. Os ydym yn ystyried Gwynedd ar gyfartaledd yn unig, mae 59.6 y cant o bobl leol wedi'u prisio allan o'r farchnad ar hyn o bryd. Ac eto fel y dangosir yn Ffigur 6, mewn rhai ardaloedd o Wynedd, mae dros 80 y cant o bobl leol wedi'u prisio allan o'r farchnad dai.

Ffigur 6: Cyfran yr aelwydydd sydd wedi'u prisio allan o'r farchnad dai yng Ngwynedd



⁶Rheoli'r defnydd o anheddau fel cartrefi gwyliau Rhagfyr 2020. <https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru/documents/s27926/Atodiad%202.pdf>

Mae rhai mesurau eisoes wedi'u cyflwyno gan lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r defnydd o ail gartrefi. Mae awdurdodau lleol wedi cael y pŵer i gyflwyno [premiymau treth cyngor dewisol](#) ar ail gartrefi hyd at 300 y cant. At hynny, gall Cyngor Gwynedd fel rhan o [Beilot Dwyfor](#) nawr ei gwneud yn ofynnol cael caniatâd cynllunio cyn newid defnydd cartref preswyl i ail gartref neu gartref gwyliau.

Dengys y [data prisiau tai](#) diweddaraf ar gyfer Gwynedd fod prisiau tai wedi dechrau codi unwaith eto ar ôl gostyngiad ym mhrisiau tai rhwng Awst 2024 a Mawrth 2025. Rhwng Mai 2024 a Mai 2025 maent wedi codi 7 y cant.

Replace with: Oherwydd i'r data ddangos bod prisiau tai'n dal i godi yng Nghymru wledig, mae angen i ni edrych ar ddull system gyfan o ymdrin â ffordddadwyedd tai yng nghefn gwlad Cymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu tai fforddiadwy yn gyflym ac ar raddfa fawr, gan sicrhau bod tai cymdeithasol yn cyfrif am o leiaf 20 y cant o'r tai yng nghefn gwlad Cymru, fel rhan o'r lleiafswm targedau craidd ehangach. Bydd hyn yn helpu i ailgydbwysu daliadaethau a bydd hefyd yn rhan o'r ateb i wneud cartrefi yng nghefn gwlad Cymru yn fforddiadwy i gymunedau lleol.

Mynd i'r afael â'r cynnydd mewn rhenti preifat

Yn ôl y data diweddaraf gan y [SYG](#) mae rhenti yng Nghymru wedi codi 8.2 y cant rhwng Gorffennaf 2024 a Gorffennaf 2025. Mae hyn yn uwch na'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Gorffennaf 2025, sef 3.6 y cant. Roedd y cyflenwad o hysbysebion llety ar rent ym mis Chwefror 2025 31 y cant yn is na'r cyfartaledd ar gyfer 2018-19, yn ôl [Savills](#). Mae twf pellach mewn rhenti wedi'i gyfyngu gan ffordddadwyedd, felly mae'n debygol y bydd twf o fewn y farchnad rhent preifat yn gymedrol yn y dyfodol.

Awgrymwyd bod angen cap ar renti er mwyn sefydlogi rhenti yn y farchnad rhentu preifat. Ac eto, nododd [ymchwil CIH yng Ngogledd Iwerddon](#) y byddai tua thraean o landlordiaid preifat yn gadael y farchnad pe bai rheolaethau rhent yn cael eu gorfodi. Byddai hyn yn lleihau'r cyflenwad ymhellach a gallai arwain at ganlyniad anfwriadol o ymchwydd pellach mewn prisiau yn y farchnad rhentu preifat.

Yr hyn sydd ei angen i fynd i'r afael â chynnydd mewn prisiau yn y sector rhentu preifat yw cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Fel y nodwyd yn flaenorol, amlinellodd adroddiad [Comisiwn Tai 2024](#) a gyhoeddwyd gan lywodraeth Iwerddon fod màs critigol o dai cymdeithasol yn rhan allweddol o system dai sy'n gweithredu'n dda. Dylai'r màs critigol fod o leiaf 20 y cant o gyfanswm y stoc tai a fydd yn helpu i sefydlogi'r prisiau a welir yn y sector preifat.

Yr hawl i dai digonol a thai fforddiadwy

Gellir mynd i'r afael â llawer o'r rhwystrau i ddatblygu'r tai fforddiadwy sydd eu hangen arnom drwy ymagwedd tai strategol cyfannol radicalaidd ar gyfer cyflenwi tai. Un lle mae'r nod cyffredinol yn gymysgedd priodol o ddaliadaethau, yn ogystal â sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas yn cael cymorth i gyrchu cartref diogel, addas a fforddiadwy. Gellir cyflawni hyn drwy wneud tai'n genhadaeth lywodraethol sylfaenol drwy ymgorffori'r hawl i dai digonol yn neddfwriaeth Cymru. Rydym wedi amlinellu isod rai o'r mesurau ymarferol y gallai hawl i dai digonol eu cyflwyno i helpu goresgyn y rhwystrau hynny i gyflenwad tai fforddiadwy:

- **Buddsoddi cynyddol:** Mae gwireddu'r hawl i dai digonol fesul cam yn golygu y byddai'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ymrwymo'r uchafswm cyllid sydd ar gael ar gyfer tai dros gyfnod o amser. Law yn llaw â'r buddsoddiad hwn fyddai'r gofyniad am strategaeth fanwl sy'n amlinellu nodau allweddol ac yn ymgorffori fframweithiau atebolrwydd i werthuso'r cynnydd a wneir.
- **Diffyg tir i ddatblygu arno:** Byddai ymgorffori'r hawl i dai digonol yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i fuddsoddi'r uchafswm lefel o'r adnoddau sydd ar gael i ryddhau tir i'w ddatblygu a'i galluogi i weithio gyda'r sector cyhoeddus i ryddhau tir y mae'n berchen arno i'w ddatblygu.

Yn y pen draw, os ydym am gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy er mwyn ailosod y cydbwysedd daliadaeth yng Nghymru, mae angen i ni fod yn uchelgeisiol a deddfu dros yr hawl i dai digonol. Yna yr hawl fydd y sbardun a'r mecanwaith i gynyddu buddsoddiad, goresgyn rhwystrau a sicrhau y gall pawb yng Nghymru gyrchu cartref diogel, sicr a fforddiadwy.

3. Gwella ein cartrefi presennol a mynd i'r afael â thlodi tanwydd

Ariannu datgarboneiddio yn y sector tai cymdeithasol

Mae gan Gymru darged cyfreithiol rwymol i gyflawni [sero net erbyn 2050](#). Ar ben hynny mae angen i ddarparwyr tai cymdeithasol, fel rhan o [Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023](#), sicrhau bod cartrefi presennol yn bodloni EPC C erbyn 31 Mawrth 2030. Mae'n ofynnol hefyd i landlordiaid cymdeithasol ddatblygu llwybr ynni wedi'i dargedu a fydd yn gosod y dyddiad cydymffurfio ar gyfer gwella eu cartrefi presennol i EPC A.

Mae llywodraeth Cymru wedi darparu [£95 miliwn yng nghyllideb 2025/26](#) i ddatgarboneiddio cartrefi cymdeithasol presennol. Yn ystod dwy flynedd flaenorol y cyfnod adolygu gwariant, dyrannwyd £92 miliwn y flwyddyn. Ac eto, amlinellodd ymchwil a wnaed gan [New Economics Foundation](#) mai cyfanswm y buddsoddiad y byddai ei angen i ddatgarboneiddio ein stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yw £5.52 biliwn dros 10 mlynedd gyda bwlch ariannu amcangyfrifedig o £2.7 biliwn ar adeg cyhoeddi'r adroddiad.

Cyhoeddwyd yr ymchwil hon yn 2021 a chan ddefnyddio [cyfrifiannell chwyddiant Banc Lloegr](#) byddai'r cyfanswm lefel o fuddsoddiad, o gyllid llywodraethol a phreifat, y byddai ei angen ar brisiau heddiw i lenwi'r bwlch ariannu yn debygol o fod yn agosach at £3.28 biliwn dros ddeng mlynedd neu tua £328 miliwn y flwyddyn. Felly, byddai angen cynnydd sylweddol mewn lefelau buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru o gymharu â'r lefelau presennol, er mwyn cyflawni ei chyfran o'r cyfanswm buddsoddiad sydd ei angen.

Nododd adroddiad New Economics Foundation y byddai angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi £1.7 biliwn dros y cyfnod 10 mlynedd hwnnw, sef tua £170 miliwn y flwyddyn. Gan ddefnyddio'r un gyfrifiannell chwyddiant Banc Lloegr, byddai angen bellach i'r buddsoddiad gan lywodraeth Cymru fod tua £2.1 biliwn dros gyfnod o ddeng mlynedd. Sef tua £210 miliwn y flwyddyn.

75 y cant yw'r gwahaniaeth canrannol rhwng lefel y buddsoddiad sydd ei angen a'r buddsoddiad a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Fel y nododd un ymatebydd i'n cipolwg ar y sector 2024:

“Mae cymdeithasau tai o dan bwysau oherwydd datgarboneiddio a Safon Ansawdd Tai Cymru 2023. Mae costau wedi cynyddu'n sylweddol. Mae yna brinder sgiliau oherwydd diffyg buddsoddiad hanesyddol yn y gweithlu a diffyg cyllid i ymchwilio i ddulliau adeiladwaith modern.”

Mae angen i ni sicrhau bod gan ein landlordiaid cymdeithasol y lefel gywir ofynnol o fuddsoddiad cyfalaf i warantu y gallwn ddatgarboneiddio ein cartrefi cymdeithasol presennol.

Datgarboneiddio'r sector preifat

Un rhan yn unig o'r ateb yw datgarboneiddio ein cartrefi cymdeithasol o ran sicrhau y gall ein cartrefi presennol gyfrannu at y targed sero net. Yn ôl [Adolygiad Tai'r DU 2025](#), dim ond 18 y cant o gyfanswm cartrefi Cymru oedd cartrefi cymdeithasol. Roedd tai rhent preifat yn cyfrif am 14 y cant o gyfanswm y cartrefi ac roedd perchnogion-feddianwyr yn cyfrif am 68 y cant. Amlinellodd ein hymchwil [Tyfu Tai](#) ar ddatgarboneiddio'r sector rhent preifat fod 32 y cant o gartrefi Cymru wedi'u hadeiladu cyn 1919 ac mai ond 6 y cant o'r holl gartrefi a adeiladwyd yn y 35 mlynedd diwethaf. Mae gan gartrefi yng Nghymru EPC cyfartalog o D a byddant angen y buddsoddiad uchaf i gyrraedd EPC C. Amcangyfrifwyd mai £846 miliwn yw cyfanswm lefel y buddsoddiad sydd ei angen i gartrefi rhent preifat gyrraedd EPC C erbyn 2030.

Nododd [New Economics Foundation](#) yn ei adroddiad ar gyllido datgarboneiddio Cymru gyfanswm lefel y buddsoddiad sydd ei hangen i ddod â phob cartref yng Nghymru i EPC A erbyn 2050 gan ddefnyddio'r targed o sero net. Gan ddefnyddio costau 2020, canfu hyn y byddai cyfanswm lefel y buddsoddiad dros dri deg mlynedd yn £55.96 biliwn. Mae'n debygol y byddai lefel y buddsoddiad yn gostwng i £36.17 biliwn dros dri deg mlynedd wrth ystyried costau adnewyddu a gwella (RMI). Gan gymryd chwyddiant i ystyriaeth, byddai'r costau heddiw yn £67.63 biliwn gan ostwng i £43.9 biliwn dros dri deg mlynedd wrth ystyried costau RMI.

Fel yr adleisiwyd yn adroddiad pwyllgor newid hinsawdd y Senedd ar [ddatgarboneiddio'r sector preifat](#), nid ydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru dalu cost lawn ôl-osod cartrefi preifat wrth i ni bontio i sero net. Yn hytrach, mae angen amrywiaeth o opsiynau ariannol arnom i alluogi perchnogion eiddo, sy'n cynnwys landlordiaid preifat a pherchnogion-feddianwyr, i dalu costau ôl-osod eu cartrefi. Mae'n hanfodol ein bod yn darparu cymhellion ac yn cefnogi landlordiaid preifat a pherchnogion-feddianwyr i gychwyn ar y daith ddatgarboneiddio. Bydd eu cynorthwyo i symud i ddatrysiadau gwresogi gwyrdd yn helpu sbarduno cyflymder a graddfa'r newid sydd ei angen arnom er mwyn cyflawni nodau gwresogi carbon isel.

Mae angen i ni ddatblygu cyfres o opsiynau ariannol y gall perchnogion-feddianwyr a landlordiaid preifat eu cyrchu i'w galluogi i ddatgarboneiddio eu cartrefi fel rhan o ymagwedd system gyfan sy'n niwtral o ran daliadaeth i ddatgarboneiddio ein cartrefi presennol.

Eto i gyd, dim ond rhan o'r ateb yw ôl-osod ein cartrefi presennol. Mae angen hefyd i ni edrych ar ein rheoliadau adeiladu presennol fel bod datblygiadau cartrefi preifat newydd yn adlewyrchu gofynion datgarboneiddio cartrefi cymdeithasol. Os gallwn gael

buddsoddiad gwell ar gyfer cartrefi perchnogion-feddianwyr presennol, ein landlordiaid sector preifat ynghyd â diwygio safonau adeiladu ar gyfer cartrefi preifat newydd, bydd yn helpu gostwng costau marchnad datrysiadau datgarboneiddio. Mae'n hanfodol i ni weld lefelau digonol o fuddsoddiad a chymhellion ariannol fel rhan o'r ateb er mwyn sicrhau lefelau digonol o sgiliau yn y sector tai i gyrraedd y targedau uchelgeisiol i gyflawni Cymru carbon sero net.

Mae datgarboneiddio'n cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi tanwydd

[Mae SATC 2023](#) yn fframio gwella EPC cartrefi cymdeithasol i EPC A fel sicrhau y gall tenantiaid gyrchu cynhesrwydd fforddiadwy. Ar hyn o bryd [mae hyd at 45 y cant o holl aelwydydd Cymru mewn tlodi tanwydd](#) ac mae 8 y cant mewn tlodi tanwydd difrifol. Nid yw hyn yn ystyried sawl cynnydd diweddar yn y cap ar brisiau ac nid yw llywodraeth Cymru wedi diweddarau'r ffigurau hyn ers mis Ebrill 2022.

At hynny, dangosodd [ymchwil gan Sefydliad Bevan](#) i 22 y cant o gartrefi fynd heb wres yn y tri mis hyd at fis Medi 2024.

Bydd unrhyw welliannau a wneir i'n cartrefi drwy ddatgarboneiddio a chynyddu sgôr EPC yr eiddo o ganlyniad yn cael effaith gadarnhaol ar nifer yr aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd. Y [gost gyfartalog i gynhesu cartref dwy ystafell wely](#) sydd â sgôr EPC D, [cyfartaledd cyfredol Cymru](#), yw £1313 y flwyddyn. Ar gyfer cartref dwy ystafell wely EPC C mae'n £1092, ac ar gyfer cartref dwy ystafell wely EPC A mae'n £404. Byddai gwella sgôr EPC ein cartrefi yn arbed arian sylweddol i drigolion ac yn helpu i godi pobl allan o dlodi tanwydd.

Mynd i'r afael â'r bwlch sgiliau

Mae'r [diwydiant adeiladu'n cael ei ystyried yn weithlu sy'n heneiddio](#), gyda nifer y gweithwyr dros 60 oed yn cynyddu mwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Ac eto mae gostyngiad hefyd yn nifer y gweithwyr dan 30 oed. Ceir pryder o fewn y sector tai y bydd sgiliau'n cael eu colli wrth i bobl ymddeol, gan na fydd digon o bobl yn ymuno â'r

diwydiant i gymryd lle'r rhai sy'n ymddeol. Mae'r bwlch sgiliau hefyd yn arwyddocaol ac mae ymchwil gan [CITB](#) yn amlinellu bod angen 12,000 o weithwyr ychwanegol ar draws y sector tai yng Nghymru. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 11 y cant yn y gweithlu, y mae ei angen yn bennaf i gyflwyno'r gwelliannau sy'n ofynnol fel rhan o'r agenda datgarboneiddio. Mae angen cynyddu cyflymder a graddfa recriwtio a hyfforddi yn y sector er mwyn i ni allu sicrhau bod gennym y sgiliau sydd eu hangen i gau'r bwlch sgiliau.

Eto i gyd, mae'r sector hyfforddi wedi'i arwain gan y galw i raddau helaeth. Os ydym am weld cynnydd cyflym yn yr angen am sgiliau carbon isel, mae angen i ni greu'r galw am y sgiliau hynny. Mae angen i'r diwydiant adeiladu a llywodraeth Cymru gydweithio ac i amlinelliad clir fodoli o waith y dyfodol. Bydd hyn yn galluogi cynllunio cadarn yn y dyfodol ar gyfer gofynion hyfforddi a'r lefel ofynnol o fuddsoddiad fel y gallwn lenwi'r bwlch sgiliau fel rhan o ddatgarboneiddio ein cartrefi.

Mae enghreifftiau o hyn yn digwydd yng Nghymru eisoes. [Adra yng Ngogledd Cymru](#) wedi agor hyb datgarboneiddio ym Mhen-y-groes mewn partneriaeth â Travis Perkins, Grŵp Llandrillo Menai a Welcome Furniture. Mae'r hyb mewn uned ffatri wag wedi'i hailddatblygu ac mae wedi dod â sgiliau a swyddi i'r ardal. Mae'r hyb yn gyfleuster hyfforddi i ddatblygu sgiliau gosod a chynnal a chadw systemau ffotofoltäig solar bach, pypiau gwres domestig a systemau dŵr poeth thermol solar. Mae'r hyb wedi derbyn £230,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi twf pellach.

Drwy efelychu'r model hwn ledled Cymru, nid yn unig y gallwn ddarparu buddsoddiad i economïau lleol, gallwn hefyd weithio tuag at sicrhau bod gennym y lefel gywir o'r sgiliau sy'n ofynnol i sicrhau bod cartrefi yng Nghymru yn cyrraedd sero net ar draws pob daliadaeth, ar gyflymder ac ar raddfa fawr.

Mae angen i'r diwydiant adeiladu a llywodraeth Cymru gydweithio ac i amlinelliad clir fodoli o waith yn y dyfodol i alluogi cynllunio'n gadarn ar gyfer gofynion hyfforddi a'r lefel ofynnol o fuddsoddiad fel y gallwn lenwi'r bwlch sgiliau fel rhan o ddatgarboneiddio ein cartrefi.

Datblygu cadwyni cyflenwi lleol

Amlygodd ein [hadroddiad Tyfu Tai Cymru ar gadwyni cyflenwi](#) fod costau deunyddiau wedi cynyddu 30-40 y cant. Nid yn unig y bydd hyn yn effeithio ar ddatblygu cartrefi newydd, bydd hefyd yn effeithio ar faint o gartrefi y gellir eu hôl-osod gan ddefnyddio'r arian datgarboneiddio a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu (BICS) yn rhagweld y bydd costau adeiladu'n codi 15 y cant dros y pum mlynedd nesaf.

Mae angen edrych ar ffyrdd o ymwreiddio sicrwydd yng nghost deunyddiau adeiladu. Rhan o hyn yw datblygu cadwyni cyflenwi lleol. Gall [cadwyni cyflenwi lleol](#) wella cydnetheredd yn wyneb aflonyddwch allanol, maent hefyd yn cyfrannu at economïau lleol a thrwy gaffael yn lleol rydym yn lleihau allyriadau carbon o deithio. Mae cadwyni cyflenwi lleol hefyd yn rhan allweddol o ddatblygu'r economi gylchol yng Nghymru, gan leihau gwastraff a chynyddu effeithlonrwydd. Bydd cadwyn gyflenwi leol yn helpu i ail-fuddsoddi mewn cymunedau Cymru, yn helpu i liniaru cost gynyddol deunyddiau ac yn helpu i leihau allyriadau carbon o gludo deunyddiau i'r safle.

Mae angen i ni ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol ledled Cymru i ymwreiddio egwyddorion economi gylchol fel rhan o fuddsoddi yn ein cymunedau, gan wella'r economi a darparu cyfleoedd swyddi i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Yr hawl i dai digonol a'n cartrefi presennol

Dangosodd ymchwil a wnaed gan [Savills](#) yn Lloegr fod llawer o ddarparwyr tai cymdeithasol yn gorfod gwneud dewisiadau anodd rhwng datblygu cartrefi newydd ac ôl-osod cartrefi presennol. Pan gynhaliwyd arolwg o'r sector tai, dywedodd 95 y cant o'r ymatebwyr fod buddsoddi mewn cartrefi a chymunedau presennol yn bwysicach na datblygu cartrefi newydd. Gall yr hawl i dai digonol ddarparu dull system dai cyfan a fydd yn sicrhau y dyrennir digon o gyllid i ddatblygu cartrefi ac ôl-osod ein cartrefi presennol. Yr hawl fyddai'r sbardun craidd sy'n sicrhau bod y llywodraeth yn darparu'r uchafswm adnoddau sy'n bosibl i'r ddau faes polisi er mwyn i ni sicrhau y gall pawb yng Nghymru gyrchu cartref diogel, addas a fforddiadwy.

Gall yr hawl i dai digonol hefyd helpu i ddarparu ateb a bod yn fecanwaith i oresgyn rhai o'r rhwystrau eraill i ôl-osod ein cartrefi yn y ffyrdd canlynol:

- **Prinder sgiliau ehangach:** Bydd ymgorffori'r hawl i dai digonol yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn sgiliau ar draws y sector tai cyfan. Bydd hyn yn helpu cyflawni ein huchelgeisiau sero net drwy ddarparu'r lefelau cywir o'r sgiliau sy'n ofynnol i ailwampio ein cartrefi.
- **Problemau parhaus yn y gadwyn gyflenwi:** Bydd ymgorffori'r hawl yn darparu'r mecanwaith ar gyfer blaenoriaethu ein cadwyni cyflenwi lleol.

Bydd yr hawl i dai digonol yn helpu darparu'r cyllid angenrheidiol, y cynllunio hirdymor a'r blaenoriaethu sydd eu hangen i sicrhau bod pob cartref yng Nghymru yn ddiogel, yn addas ac yn fforddiadwy.

4. Mynd i'r afael â'r stigma sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol a hybu effaith gadarnhaol cymunedau amrywiol

Mae llawer o bobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol yn profi stigma oherwydd ble maen nhw'n byw. Mae achosion y stigma hwn yn amrywiol. Maent yn cynnwys sut mae'r cyfryngau'n cynrychioli'r rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol, a all greu ac atgyfnerthu ystrydebau annheg. [adroddiad a gyhoeddwyd gan CIH Cymru](#), er y ceir cydnabyddiaeth gyhoeddus sylweddol o'r angen am dai cymdeithasol, mae 'na hefyd ganfyddiadau negyddol ynghylch tai cymdeithasol. Yn gyffredinol, nid yw tai cymdeithasol yn cael eu hystyried yn ddymunol, gyda 43 y cant o gyfranogwyr yn yr ymchwil yn nodi na fyddent eisiau byw mewn tai cymdeithasol, o gymharu â 63 y cant a nododd y dylid anelu at berchen ar gartref.

Gofynnodd yr arolwg a lywiodd yr ymchwil i bobl hefyd pwy oedd yn byw mewn tai cymdeithasol ar hyn o bryd, yn eu barn hwy. Y canfyddiad cyffredinol oedd bod meddiannaeth tai cymdeithasol wedi'i chanoli ymhlith y rhai ar incwm isel, mamau sengl a cheiswyr lloches. Er hynny, mae'r unigolion hynny sy'n byw mewn tai cymdeithasol ar hyn o bryd yn fwy tebygol o feddwl bod teuluoedd sy'n gweithio, unigolion wedi ymddeol a gweithwyr proffesiynol ifanc yn byw mewn tai cymdeithasol..

Mae'r stigma hwn tuag at dai cymdeithasol yn aml yn ymestyn i'r broses gynllunio. Rydym wedi clywed yn aml gan ein haelodau am wrthwynebiad iddynt adeiladu tai cymdeithasol newydd mewn cymuned sefydledig. Bu enghreifftiau hefyd o gynllun eiddo un ystafell wely i bob oedran yng nghanol tref a gafodd ei ddiwygio i 50+ oed yn y cam caniatâd cynllunio yn dilyn pwysau gan y gymuned. Daw hyn ar adeg pan fo prinder dybryd o eiddo un ystafell wely ar rent cymdeithasol.

[Argymhellodd adroddiad Tyfu Tai ynghylch yr angen am dai a'u dymunoldeb](#) y camau canlynol i helpu dileu stigma mewn perthynas â datblygiadau tai cymdeithasol presennol ac arfaethedig:

- Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol gydweithio i godi ymwybyddiaeth o wahanol ddaliadaethau tai a'u rôl yn ein marchnad tai
- Rhaglen addysg chwalu mythau sy'n canolbwyntio ar "pwy" yn y gymuned a allai fod ag anghenion tai a phwysigrwydd darpariaeth tai cymdeithasol i ffurfio rhan o ymgyrch genedlaethol i roi terfyn ar y stigma ynghylch tai cymdeithasol
- Sicrhau bod iaith gyson yn cael ei defnyddio ym maes tai cymdeithasol wrth ryngweithio â chymunedau lle mae cartrefi cymdeithasol newydd yn cael eu datblygu.
- Defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu fel rhan o broses chwalu jargon o ran yr iaith a ddefnyddir wrth edrych ar ddatblygu cartrefi newydd.
- Datblygu canllaw terminoleg gyffredin fel rhan o safoni'r iaith a ddefnyddir ym maes cartrefi cymdeithasol.
- Gwella dealltwriaeth y gymuned o beth yw tai cymdeithasol a'r effaith gadarnhaol y gall ei chael fel rhan o adeiladu cymunedau.



Hoffem hefyd weld gwell welededd o dai cymdeithasol a darparwyr tai cymdeithasol fel elfen allweddol o adferiad economaidd yng Nghymru a sut mae'n rhan allweddol o ymagwedd economi gylchol Cymru. Dylem fod yn dathlu tai cymdeithasol a'r manteision y mae'n eu cynnig i unigolion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Rhaid i hyn gynnwys dathlu ac amlygu'r gwaith y mae ein landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol sy'n dal stoc yn ei wneud i gefnogi cymunedau. Eto i gyd, rhaid i ni fod yn rhagweithiol wrth sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â stigma pryd bynnag y bydd yn codi fel rhan o ddatblygu cymunedau amrywiol yng Nghymru.

Hawl i dai digonol a mynd i'r afael â stigma.

Mae'r hawl i dai digonol yn rhan allweddol o newid y naratif am dai cymdeithasol yng Nghymru a helpu hyrwyddo effaith gadarnhaol cymunedau amrywiol. Nid yw'r hawl i dai digonol yn ymwneud â hawl yn unig, mae'n ymwneud ag ymagwedd gyfannol at dai, gan gynnwys ei ddefnyddio fel bloc adeiladu i wella cymdeithas. Bydd yr hawl yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ac yn sicrhau cydraddoldeb - gan gynnwys mesurau cadarnhaol i sicrhau mynediad at dai a dileu gwahaniaethu ym maes tai. Os byddwn yn gweithio tuag at sicrhau bod gan bawb yng Nghymru gartref diogel, addas a fforddiadwy, ni all hyn ond meithrin tegwch ar draws daliadaethau tai. Yr hawl yw'r mecanwaith allweddol i sicrhau Cymru deg ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.



5. Gweithlu proffesiynol a gwydn

Dros y tair blynedd diwethaf mae CIH Cymru wedi cyhoeddi adroddiad rheolaidd yn amlinellu profiadau ein gweithlu tai. Mae'r ymatebion sy'n bwydo i mewn i'r adroddiad wedi bod yn glir. Mae pobl yn gweithio ym maes tai gan eu bod am wneud gwahaniaeth i unigolion a chymunedau. Er hynny, thema sy'n codi dro ar ôl tro yw bod y sector o dan bwysau enfawr heb ddigon o adnoddau, o safbwynt ariannol ac o ran nifer yr unigolion sy'n cael eu cyflogi. Mae hyn yn cael effaith negyddol sylweddol ar iechyd meddwl a lles unigolion. Dangosodd ein cipolwg ar y sector 2025 fod y pwysau presennol yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles 66 y cant o ymatebwyr. Mae'r effaith negyddol hon yn fwy tebygol ymysg y rhai sy'n gweithio mewn cymdeithas dai.

Un cam allweddol yn y Cynllun Gweithredu Digartrefedd yw adeiladu gweithlu gwydn sy'n cael ei werthfawrogi. Ac eto er gwaethaf y nod da hwn, ychydig iawn sydd wedi newid ym mhrofiadau bob dydd gweithio ym maes tai yng Nghymru. Cred CIH Cymru y dylai'r sector tai, fel proffesiynau allweddol eraill, gael ei ystyried yn golofn allweddol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus.

Nawr yw'r amser i ddatblygu strategaeth gweithlu, mewn partneriaeth â CIH Cymru, ar gyfer gweithwyr tai proffesiynol gyda'r nod o ddiwallu anghenion y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac ar yr un pryd cefnogi'r gwaith o gyflawni uchelgeisiau sero net Llywodraeth Cymru, gan gynhyrchu gweithlu sy'n dangos:

- **Cyfanrwydd:** Gweithlu sy'n gwneud y peth iawn am y rhesymau iawn, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a heb ragfarn.
- **Cynwysoldeb:** Gweithlu cydweithredol sy'n gweithio gyda phartneriaid, cwsmeriaid a chymunedau i gyflawni canlyniadau gwell.
- **Moeseg:** Gweithlu sy'n deall yr effaith y gall penderfyniadau gwael ei chael ar fywydau pobl ac enw da eu sefydliad. Herio arfer anfoesegol mewn ffordd deg.

- **Gwybodaeth a sgiliau:** Sicrhau bod gwybodaeth yn adnodd a rennir ac edrych tua'r dyfodol at y sgiliau sydd eu hangen er mwyn i sector tai modern weithio'n effeithiol.
- **Arweinyddiaeth:** Gweithlu sy'n flaengar ei feddylfryd ac yn gallu addasu i newid.

Bydd angen cyllid a chefnogaeth i'r sector tai cyfan i wneud hyn. Nid yn unig y bydd hyn yn sicrhau bod gan sefydliadau tai weithlu o'r maint cywir i leddfu rhai o'r pwysau ar iechyd meddwl a lles, bydd hefyd yn darparu capasiti mewn timau i unigolion fynd ar drywydd cymwysterau fel rhan o'r agenda broffesiynoldeb ehangach. [Nododd ein hadroddiad ar gymwysterau yng Nghymru](#) gefnogaeth dros gymwysterau yng Nghymru. Er hynny, mae 'na rhwystrau i gael cymwysterau oherwydd diffyg capasiti o fewn sefydliadau a diffyg canolfannau dysgu ledled Cymru.

Er mwyn i ni sicrhau bod gennym weithlu gwerthfawr a chyflawni uchelgais y cynllun gweithredu digartrefedd, mae angen strategaeth gweithlu arnom sy'n:

- Darparu llwybrau gyrfa
- Adlewyrchu amrywiaeth ehangach Cymru
- Meithrin arbenigedd
- Cynyddu capasiti
- Helpu datblygu gwydnwch
- Cefnogi iechyd meddwl a lles.

Mae ein gweithlu tai'n rhan werthfawr a hanfodol o'r gwaith i roi terfyn ar argyfwng tai Cymru. Mae angen i ni sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn a bod ganddynt y lefel gywir o adnoddau ar waith i sicrhau y gallant barhau i gefnogi a gweithio gydag unigolion a'u cymunedau.





**Chartered
Institute of
Housing**
Cymru

I drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud
â gwaith CIH Cymru a sut y gallwn
gefnogi eich sefydliad chi, cysylltwch â:

Matthew Dicks, cyfarwyddwr cenedlaethol CIH Cymru
matthew.dicks@cih.org
02475 312018

Liza Fleming, rheolwr ymgysylltu CIH Cymru
liza.fleming@cih.org
02475 312016

Cerys Clark, rheolwr polisi a materion cyhoeddus CIH
Cymru
cerys.clark@cih.org
07939 302 566

